



Ein cyf/Our ref ARD/05365/16

Manon Elin
Cadeirydd, Grŵp Hawl
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

manon@cymdeithas.cymru

20 Hydref 2016

Amry, Manon,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch gohebiaeth dyddiedig 6 Hydref ynglŷn â'r ymgynghoriad ar Reoliadau drafft sy'n pennu safonau'r Gymraeg ar gyfer y sector iechyd. Rwy'n falch eich bod wedi cael cyfarfod cadarnhaol gyda fy swyddogion.

Byddaf yn ystyried eich sylwadau ochr yn ochr ag ymatebion eraill i'r ymgynghoriad. Yn y cyfamser hoffwn gywiro camddealltwriaeth yn eich gohebiaeth. Rwy'n deall mai cytuno i ymchwilio i'r posibilïadau o osod amodau yn y contract gwasanaethau meddygol cyffredinol, i osod amodau ar daliadau byrddau iechyd i ddarparwyr gofal sylfaenol ac ar osod dyletswyddau drwy Gofal Iechyd Cymru wnaeth fy swyddogion. Bydd hefyd rhaid ystyried os yw hyn yn bosib o fewn y fframwaith cyfreithiol. Fel yr eglurwyd yn y cyfarfod mae'r contract gwasanaethau meddygol cyffredinol yn cael ei negodi rhwng y Llywodraeth a'r General Practitioner Committee Wales sydd yn bwyllgor o'r British Medical Association (BMA). Hoffwn hefyd gadarnhau nag yw'n bosib i ni rannu barn gyfreithiol gyda chi.

Gofian

Alun

Alun Davies AC/AM
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.